**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 2 Gorffennaf 2002
**Amser:** 9 am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwraig Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
Rhodri Glyn Thomas, Plaid Cymru

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr / YP y Dirprwy Lywydd

**6 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

6.2Daeth ymddiheuriad i law am absenoldeb y Trefnydd. Croesawodd y Dirprwy Lywydd Jane Davidson a fyddai'n ei gynrychioli dan Reol Sefydlog 13.3. Roedd Jocelyn Davies wedi ymddiheuro ynghynt a byddai Rhodri Glyn Thomas yn ei chynrychioli hyd fis Hydref.

**2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**(i) BC212-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 18 Mehefin 2002**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) BC227-02 (Drafft) Dydd Mawrth 25 Mehefin 2002**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion yn Codi (BC227-02 Dydd Mawrth 25 Mehefin 2002)**

3.1 **Paragraff 3.3** Dosbarthodd Marion Stapleton ganllawiau ar bortffolios diwygiedig Gweinidogion. Croesawodd y Dirprwy Lywydd y ddogfen. Cyfeiriodd at ddatganiad y Llywydd yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Mehefin

(BC239-02). Holodd hefyd pryd y byddai'r Aelodau yn cael manylion cyfrifoldebau pob Gweinidog dan Adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru. Dan Reol Sefydlog 6.3(iv), roedd yn ofynnol i Weinidogion ateb cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn mewn perthynas â'u cyfrifoldebau penodedig. Roedd hyn yn fater brys, bellach, gan fod angen i'r Swyddfa Gyflwyno a'r Aelodau fod yn glir ynghylch pa feysydd yr oedd Gweinidogion yn gyfrifol amdanynt ac i bwy y gellid holi cwestiynau. Efallai y byddai'n rhaid newid y Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu i Aelodau edrych yn ofalus ar gyfrifoldebau eraill Gweinidogion. Dywedodd Jane Davidson y byddai'n mynegi pryderon y Pwyllgor i'r Trefnydd.

3.2 **Paragraff 4.3** Cadarnhaodd Jane Davidson nad oedd unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC214-02).

3.3 Tynnodd y Dirprwy Lywydd sylw'r Pwyllgor at lythyr yr oedd wedi'i anfon at y Trefnydd yn amlinellu pryderon y Pwyllgor o ran cyflwyno Gorchmynion Drafft. Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

Rheoliadau Addysg (Lleoedd â Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC229-02)*Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC230-02)*Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (BC231 - 02)
*Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2002 (BC232-02)*Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC233-02)*Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002
(BC234-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Safonol*

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC229-02 hyd BC234-02 a oedd yn rhoi cyngor ar y ffordd y dylid ymdrin â'r gorchmynion hyn. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a fyddai modd sicrhau cysondeb yng ngeiriad Memoranda Esboniadol ynghylch goblygiadau ariannol y Gorchmynion Drafft. Gofynnodd a fyddai modd, lle y bo'n briodol, i'r Memorandwm Esboniadol gadarnhau nad oedd costau ychwanegol ar gyfer unrhyw gyrff neu sefydliadau eraill.

**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen i'r Gorchmynion hyn gael eu cyfeirio i bwyllgor pwnc.**

**(b) Gorchmynion a wnaed dan y Weithdrefn Weithredol; papurau i'w nodi.**

**(c) Llythyrau oddi wrth Bwyllgorau; papurau i'w nodi.**

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

BC235-02

5.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur ar atebion dros dro neu atebion "Byddaf yn ysgrifennu" i Gwestiynau'r Cynulliad. Pan roddir ateb dros dro i gwestiwn ysgrifenedig, cytunwyd y dylid cyhoeddi'r ateb llawn yn y Cofnod o'r Trafodion. Pan fydd Gweinidog yn addo mewn Cyfarfod Llawn y bydd yn ysgrifennu at Aelod, cytunwyd hefyd y dylai wneud hynny cyn gynted â phosib ac y dylid cyhoeddi'r ohebiaeth ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd.
**Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i weithredu'r trefniadau newydd ar ôl toriad yr haf.**

BC236-02

5.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried llythyr a anfonodd David Lambert at y Trefnydd ar Reol Sefydlog 30 a'r gofyniad bod Gweinidogion yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Llywydd am unrhyw is-ddeddfwriaeth y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud. Dywedodd Jane Davidson y byddai'r Trefnydd yn ymateb i'r papur hwn cyn y toriad.
**Camau i'w cymryd: Y Trefnydd i roi adroddiad ar hyn.**

**6. Y Pwyllgorau**

6.1 Dywedodd Marie Knox na fu'n bosib iddi aildrefnu'r amserlen fel bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gallu cyfarfod ar wahanol adegau, er mwyn Mick Bates. Dywedodd Kirsty Williams ei bod yn deall yr anawsterau o ran aildrefnu cyfarfodydd Pwyllgor ar fyr rybudd ond bod ei phlaid hi dal yn anhapus gyda'r sefyllfa. Dywedodd na fyddai ei phlaid yn gallu anfon eilydd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**6.2** Dosbarthodd Marie Knox amserlen pwyllgorau'r hydref gan wahodd Aelodau i roi eu sylwadau drwy e-bost.

**7. Busnes arfaethedig**

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC237-02 a oedd yn rhoi manylion am fusnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd Jane Davidson nad oedd unrhyw gynnig wedi'i gyflwyno ynghylch ethol pobl i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ac felly na

fyddai'r eitem hon yn cael sylw ddydd Mawrth 2 Gorffennaf. Dywedodd y byddai'r Llywodraeth yn ceisio caniatâd y Llywydd i gael cynnig trefniadol i sicrhau bod Christine Chapman yn cael ei hethol i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

**(ii) Datganiad Busnes Drafft**

7.3 Nododd y Pwyllgor ddatganiad arfaethedig y Trefnydd a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau yn dechrau ddydd Mawrth 9 Gorffennaf, dydd Mawrth 16 Gorffennaf a dydd Mawrth 15 Hydref.

7.4 Gofynnodd Jonathan Morgan i Jane Davidson a fyddai modd creu slot yn y Cyfarfod Llawn i drafod y Mesur Iechyd Meddwl drafft. Cytunodd Kirsty Williams gan ddweud ei bod yn bwysig creu amser i'w drafod cyn toriad yr haf am fod y cyfnod ymgynghorol yn dod i ben ar 16 Medi cyn i Aelodau'r Cynulliad ddychwelyd ar gyfer tymor yr hydref. Dywedodd Jane Davidson fod y Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd trafod y Mesur drafft ac y byddai'n ceisio trefnu awr ar gyfer hyn mewn Cyfarfod Llawn cyn y toriad.

7.5 Gofynnodd Rhodri Glyn Thomas a fyddai modd trefnu bod y Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn cael ei thrafod. Dywedodd Jane Davidson y byddai'n trosglwyddo'r cais hwn i'r Trefnydd.

7.6 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a fyddai modd trefnu amser mewn Cyfarfod Llawn cyn y toriad ar gyfer cynnig i gymeradwyo'r egwyddor o ddirprwyo holl bwerau'r Cynulliad sy'n ymwneud â Swyddfa'r Llywydd (gan gynnwys cyfrifoldeb am yr adeilad newydd) i Bwyllgor Ty newydd. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai angen i Aelodau'r Cynulliad wybod popeth am y cynnig er mwyn iddynt allu ystyried y mater yn iawn. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Clerc ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru a'r Llywydd a rhoi manylion y cynnig i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
**Camau i'w cymryd: Y Clerc i baratoi papur**

**8. Materion a gyfeiriwyd gan y Cyfarfod Llawn**

BC239-02

8.1 Ystyriwyd yr eitem hon dan Materion yn Codi.

**9. Adolygu'r Rheolau Sefydlog**
(a) Rheolau Sefydlog

BC210-02

9.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur ar yr ail gyfres o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn sgil yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn. Cytunwyd y byddai modd diogelu'r Ddadl Fer heb effeithio ar yr amser a roddir i Ddadleuon Pleidiau Lleiafrifol drwy drefnu'r Dadleuon Pleidiau Lleiafrifol ar ddydd Mawrth a'r Dadleuon Byr ar ddydd Mercher. Cadarnhaodd Jane Davidson y gellid gwneud hyn heb ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

**Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi adroddiad a'r Trefnydd i drefnu slot yn y Cyfarfod Llawn.**

BC240-02

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i gais Cwmni Darlledu'r Cynulliad y dylai Cyfarfodydd Llawn orffen am 5.55pm ar ddydd Mawrth.

BC211-02

9.3 Cytunodd y Pwyllgor ar y papur ynghylch cynigion ar gyfer delio â deisebau a anfonir i'r Cynulliad. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i David Lambert ystyried goblygiadau'r Ddeddf Diogelu Data i'r weithdrefn newydd. **Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i roi'r trefniadau newydd ar waith o dymor yr hydref.**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**